# Cyflwr Gofal Maeth y Genedl

## Adroddiad Sbotolau ar Gymru 2024



# Rhagymadrodd

Yng Nghymru, mae 7,200 o blant yn derbyn gofal ymaith o'u cartref, gyda dwy ran o dair mewn gofal maeth.[1] Mae teuluoedd maeth yn darparu cartrefi diogel, cariadus pan fo ar blant eu hangen, p'un ai am un noson neu am flynyddoedd lawer.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnal arolwg Cyflwr Gofal Maeth y Cenhedloedd bob tair blynedd, sef arolwg mwyaf y Deyrnas Unedig o'r sector maethu. Mae'r sylw manwl hwn ar Gymru yn canolbwyntio ar ddata gan atebwyr ledled y wlad i ddarparu darlun dibynadwy o gyflwr cyfredol gofal maeth, gan gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae'n rhaid iddo newid. Yng Nghymru, cwblhawyd arolwg 2024 gan 276 o ofalwyr maeth ac 11 o wasanaethau maethu.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r arolwg yn ymdrin ag ystod eang o faterion mewn maethu, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd yr amser i rannu'u barnau. Mae canfyddiadau allweddol y Deyrnas Unedig, yn cyfuno'r Alban, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, ar gael yn yr adroddiad cryno.[2] Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion llawn wedi'u gwahanu ar gyfer pob un cenedl yn y Deyrnas Unedig ac ar gael yn yr adroddiad llawn.[3]

Yn anffodus, ers ein hadroddiad diwethaf yn 2021, mae pwysau a fodolai wedi gwaethygu, ac wedi'u cymhlethu gan argyfwng costau byw, newidiadau demograffig yn y boblogaeth gofal maeth, a'r heriau cynyddol sy'n wynebu babanod, plant a phobl ifanc heddiw. Mae llawer o'r canfyddiadau hyn yn anodd ac yn peri digalondid. Fodd bynnag, mae Cymru yn dechrau ar gyfnod o gyfle, gyda datblygiadau newydd mewn deddfwriaeth a pholisi, sy'n cynnig gwir botensial i wella gofal cymdeithasol plant.

Yn 2023, lansiodd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr Ymchwiliad Diwygio Radical, a arweiniodd at amryw o argymhellion a anelwyd at wella gofal cymdeithasol plant, y cafodd rhai ohonynt eu derbyn yn llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Ers hynny, rydym wedi parhau i alw am feysydd allweddol o ddiwygio, yn cynnwys datblygu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth ac adolygu'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'.

Yn fwy diweddar, derbyniodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol, gan nodi dechreuad y broses i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i eiriol dros newid – gan ddod â'r gymuned faethu gyfan ynghyd i wella cefnogaeth i ofalwyr maeth ac i sicrhau gwell deilliannau i fabanod, plant a phobl ifanc. Parhawn yn ymrwymedig i weithio gyda gwasanaethau i gryfhau'r hyn a gynigir i ofalwyr maeth, gan gynorthwyo recriwtio a chadw gafael, fel ei gilydd.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2025) Plant sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth gan awdurdod lleol a math o leoliad

[2] Ellis. S a Williams. N (2025) Adroddiad Cryno ar Gyflwr Gofal Maeth y Cenhedloedd 2024, Y Rhwydwaith Maethu

[3] Ellis. S a Williams. N (2025) Cyflwr Gofal Maeth y Cenhedloedd 2024, Y Rhwydwaith Maethu

Rhan Un

# Dechrau

## Recriwtio, ymgeisio a chymeradwyaeth

Mae nifer y plant mewn gofal wedi bod yn cynyddu yng Nghymru dros y ddwy ddegawd ddiwethaf,[4] tra bod nifer y gofalwyr maeth yn gostwng.[5] Golyga hyn ei bod hi'n hanfodol bod gwasanaethau'n gallu recriwtio gofalwyr maeth yn gyson, yn ogystal â chadw gafael ar y rheiny sydd ganddynt eisoes. Rydym wedi amcangyfrif bod angen recriwtio tua 300 yn rhagor o deuluoedd maeth yng Nghymru eleni i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y gofal y mae arnynt ei angen a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu cymuned.

### Cymhelliannau i faethu

Gofynasom i ofalwyr maeth ddewis eu cymhelliannau ar gyfer maethu o restr o opsiynau. Yr atebion uchaf oedd:

- 'Mae arnaf eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau plant mewn gofal' (84%)
- 'Mae arnaf eisiau cynnig y cyfle i blant fod yn rhan o fy / ein teulu' (63%)
- 'Mwynhaf weithio gyda phlant' (56%)

"Rwyf yn caru beth rwyf yn ei wneud ac rwyf yn teimlo mor werth chweil gyda phob plentyn rwyf yn cyfarfod â nhw."

### Rhwystrau rhag maethu

Gofynasom i wasanaethau maethu beth maent yn ei ystyried yw'r prif resymau sy'n atal ymgeiswyr addas rhag ymholi am faethu. Yr atebion uchaf oedd:

- **Canfyddiadau** sydd gan bobl (saith gwasanaeth, **64%**) – am faethu, plant mewn gofal, neu'u haddasrwydd eu hunain i faethu.
- **Cyllidau** (pedwar gwasanaeth, **36%**) – cyfuniad o gostau byw ac annigonolrwydd cymorth ariannol i ofalwyr maeth.
- **Dim digon o le** (tri gwasanaeth, **27%**).

### Gwella'r broses recriwtio, asesu a chymeradwyo

Gofynasom hefyd i wasanaethau maethu beth a allai wella'r broses recriwtio, asesu a chymeradwyo i ofalwyr maeth. Yr atebion uchaf oddi wrth wasanaethau yng Nghymru oedd gwell amodau i ofalwyr maeth, yn cynnwys cymorth ariannol; a mwy o welededd i faethu mewn cymdeithas.

### Demograffeg gofalwyr maeth

Mae poblogaeth gofalwyr maeth yng Nghymru yn heneiddio. O'r rheiny a atebodd ein harolwg yn 2024, dim ond 9% oedd yn 35-44 oed, i lawr o 18% yn 2021, tra bod y ganran sy'n 45-54 oed hefyd wedi gostwng ychydig o 33% i 30%. Yn wrthgyferbyniol, roedd y ganran fwyaf o atebwyr (43%) yn 55-64 oed, i fyny o 38%, ac roedd 14% arall yn

[4] Llywodraeth Cymru (2025) Plant sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth gan awdurdod lleol a math o leoliad
[5] Maethu Cymru (2024) Adroddiad blynyddol 2023/24

65-74 oed, i fyny o 7%. Mae hyn yn creu problemau cynaliadwyedd wrth i ofalwyr maeth hŷn ymddeol a neb yn eu holynu.

Mae yna hefyd ddiffyg amrywiaeth ethnig a chrefyddol ym mhoblogaeth gofalwyr maeth: roedd 99% o'r rheiny y gwnaethom arolwg ohonynt yng Nghymru yn wyn, o'i gymharu â 94% o'r boblogaeth yng Nghymru. Roedd 58% yn Gristnogion, o'i gymharu â 44% o'r boblogaeth, ac nid oedd gan 39% grefydd, o'i gymharu â 47% o'r boblogaeth. Ni wnaeth yr un o'n hatebwyr uniaethu fel Mwslim, o'i gymharu â 2% o bobl yng Nghymru[6].

# Rhan Dau

# Gofalu am blant

## Paru

**Mae paru da yn allweddol i sicrhau bod plant yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth a all ddiwallu'u hanghenion, yn agos adref, a chyda'u brodyr a chwiorydd, lle y bo'n briodol.** Mae hyn yn helpu i osgoi symudiadau nas cynlluniwyd ac mae'n cynyddu sefydlogrwydd i blant. Fodd bynnag, mae gwasanaethau yn brin o'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud pariadau da.

Dywedodd saith o wasanaethau maethu (64%) yng Nghymru eu bod bob amser neu fel arfer yn derbyn yr holl wybodaeth ofynnol oddi wrth weithwyr cymdeithasol plant i hysbysu'r broses baru.

Dywedodd pum gwasanaeth maethu (46%) fod y gwasanaeth bob amser neu fel arfer yn ymofyn barn gofalwyr maeth blaenorol y plentyn i'w phorthi i mewn i'r broses baru, neu'n gofyn am y rhain os yw'r gofalwr gyda gwasanaeth arall.


Mae'r diffyg rhannu gwybodaeth hyn yn trosglwyddo i ofalwyr maeth, gyda dim ond tri o bob pump o ofalwyr maeth (58%) a holwyd yng Nghymru yn 2024 yn dweud y rhoddwyd yr holl wybodaeth iddynt roedd arnynt ei hangen i ofalu am y plentyn y cawsant eu paru yn fwyaf diweddar ag ef. Mae hyn yn ddarlun dirywiol o'i gymharu â data a gasglwyd yn 2021, ynghyd â'r rhan fwyaf o agweddau eraill profiadau gofalwyr maeth o baru, fel a ddangoswyd.



**Dim ond tri o bob pum gofalwr maeth (61%) a deimlai fod ganddyn nhw amser i gynllunio cyn i'r plentyn y cawson nhw eu paru ag ef symud i mewn yn fwyaf diweddar, i lawr o 87% yn 2021.**

> "Mae ar dîm y plentyn angen rhannu gwybodaeth hanfodol a helpu teuluoedd maeth i greu terfynau diogel."


[6] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Cyfrifiad




**Nodiadau:** *Geiriwyd yn 2021 fel 'cynhaliwyd y cyfarfod lleoli o fewn amser priodol', ac felly nid yw ffigurau'n gymaradwy. Roedd eitemau eraill heb ddata newydd eu hychwanegu yn 2024. **Gofynnwyd fel cwestiwn cyfunol yn 2021 ac felly dangosir yr ymateb (82%) shown ddwywaith. ***Nid yw ffigwr yn cynnwys atebion 'Ddim Ar Gael'.

## Aros yn lleol

Dywedodd ein hatebwyr sy'n ofalwyr maeth yng Nghymru wrthym fod **78% o blant y maent yn eu maethu yn byw yn ardal yr un awdurdod lleol roeddynt yn byw ynddi yn union cyn iddynt fynd i ofal**, tra bod 18% yn byw mewn ardal awdurdod lleol gwahanol, ond yn yr un genedl o'r Deyrnas Unedig. Roedd 2.5% wedi symud i Gymru o genedl wahanol yn y Deyrnas Unedig.



## Lleoedd Gweigion

Dywedodd dros hanner (52%) y gofalwyr maeth a holwyd eu bod wedi treulio amser gyda lle heb ei lenwi ar gyfer plentyn mewn gofal maeth – 'lle gwag' – yn y 24 mis diwethaf. **Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am hyn oedd eu bod yn aros am bariad addas.** Mae hyn yn pwyntio at yr angen am well prosesau paru ac i ofalwyr maeth gael yr hyfforddiant a'r cymorth cywir i ganiatáu iddynt gael eu paru gyda phlant sydd ag ystod eang o anghenion.

Ar ôl hyn, y rhesymau mwyaf cyffredin nesaf am leoedd gweigion oedd **angen seibiant** neu **anghenion plant** sydd eisoes yn y cartref.


# Dysgu a datblygu

Ymddiriedir yng ngofalwyr maeth i ofalu am blant sydd yn aml wedi profi trawma ac adfyd sylweddol, ac felly mae hi'n hanfodol eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gallu darparu gofal sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn i helpu plant i ddatblygu a ffynnu. Mae hyn yn cynnwys

hyfforddiant cyn cymeradwyo a hyfforddiant ar ôl cymeradwyo parhaus rheolaidd, wedi'i deilwra i'w hanghenion dysgu. Dylid amlinellu hyn mewn cynllun dysgu a datblygu y cytunwyd arno.

**Yn 2024, dim ond 64% o ofalwyr maeth a holwyd yng Nghymru a ddywedodd fod ganddynt gynllun Dysgu a Datblygu blynyddol y cytunwyd arno**, i fyny o 59% yn 2021. Yn ystod creu Maethu Cymru, cafodd fframwaith Dysgu a Datblygu ei ddatblygu a'i roi ar gael i bob gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'n orfodol ei ddilyn.

Yn ychwanegol, gwnaeth 64% sgorio'u hyfforddiant cyn cymeradwyo fel ardderchog neu dda. Mewn cymhariaeth, gwnaeth 66% sgorio'u hyfforddiant ôl-gymeradwyo fel ardderchog neu dda. Mae hyn wedi gostwng ychydig er 2021, pan wnaeth 68% o ofalwyr maeth y gwnaethom eu holi sgorio'u Dysgu a Datblygu (drwyddo draw) fel ardderchog neu dda.




Mewn ymateb i gwestiynau i ofalwyr maeth am y mathau o hyfforddiant yr hoffent ei dderbyn ond na allant gael ato, roedd y thema fwyaf cyffredin yn ymwneud ag agweddau o hyfforddiant megis ei hygyrchedd a'i lefel, yn hytrach na'i gynnwys.

O ran meysydd penodol o hyfforddiant y dywedodd gofalwyr maeth yr oedd arnynt eu heisiau, roedd y rhain gan amlaf yn ymwneud ag anghenion plant ac yn cynnwys y canlynol:

- Gofal therapiwtig, yn cynnwys ymlyniad.
- Diogelu, yn cynnwys cymorth cyntaf.
- Iechyd meddwl, yn enwedig trawma.

"Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant ynglŷn ag ymddygiad heriol yn canolbwyntio ar y 'pam' a deall yr ymddygiad, ond byddem hefyd yn hoffi hyfforddiant ynglŷn â sut i reoli a helpu plant i'w orchfygu."

Gofynasom hefyd i ofalwyr maeth ac i wasanaethau maethu p'un a oeddynt yn credu y dylai fod yna fframwaith achrededig safonedig ar gyfer hyfforddi gofalwyr maeth, sy'n pennu lefel sylfaenol o hyfforddiant y dylai pob gofalwr maeth ei dderbyn. Byddai hyn yn wahanol i'r hyn sydd eisoes ar gael, gan y byddai'n orfodol i bob gwasanaeth ei ddefnyddio. Cytunodd 72% o ofalwyr maeth ac 73% o wasanaethau maethu (wyth gwasanaeth) yng Nghymru y dylai hyn ddigwydd ar gyfer hyfforddiant cyn ac ôl-gymeradwyo i ofalwyr maeth.

Mae dros 70% o ofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yn cefnogi fframwaith Dysgu a Datblygu cenedlaethol.

## Amser teuluol

Mae gan y rhan fwyaf o blant mewn gofal maeth deulu biolegol na allant fyw gyda nhw ond efallai eu bod yn gallu treulio amser gyda nhw neu ymweld â nhw. Gall hyn gynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd a theulu estynedig.

Un o rannau allweddol rôl gofalwr maeth yn aml yw cynorthwyo plant i weld aelodau'u teulu. **Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (69%) o ofalwyr maeth eu bod bob amser neu fel arfer yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu gwasanaeth yn ymwneud ag amser plant gyda'u teulu biolegol.**

Yn ychwanegol, dywedodd dwy ran o dair (67%) o ofalwyr maeth eu bod yn teimlo bod trefniadau cyfredol ar gyfer amser teuluol er buddiannau gorau'r plant y maent yn eu maethu.

> "[pan fo amser teuluol yn cael ei ddiddymu ar y funud olaf oherwydd prinder staff] mae'r gofid a'r siom y mae'r plant yn ei deimlo yn llethol."

## Penderfyniadau beunyddiol

Dylai plant a phobl ifanc mewn gofal maeth gael yr un cyfleoedd â'u cymheiriaid - ond nid yw gofalwyr maeth bob amser yn cael yr awdurdod i wneud y penderfyniadau sy'n ofynnol iddynt gael at y cyfleoedd hyn, nac i roi caniatâd iddynt wneud hynny.

**Ychydig dros draean (34%) o ofalwyr maeth a holwyd a ddywedodd fod gweithwyr cymdeithasol plant bob amser yn eglur ynglŷn â pha benderfyniadau y mae ganddynt yr awdurdod i'w gwneud** o ran y plant y maent yn eu maethu.

Dywedodd gofalwyr maeth eu bod at ei gilydd yn teimlo'n fwy galluog i wneud y penderfyniadau hyn yn gysylltiedig â phlant y maent yn eu maethu dros gyfnod hir (dywedodd 38% eu bod bob amser yn teimlo'n alluog) na'r rheiny y maent yn eu maethu dros gyfnod byr (dywedodd 32% eu bod bob amser yn teimlo'n alluog), ond mae'r ddau wedi gostwng er 2021. Llai nag un o bob pump o ofalwyr maeth (18%) a ddywedodd fod gweithwyr cymdeithasol bob amser yn ymateb i geisiadau am benderfyniadau mewn modd amserol.

Pan ofynnwyd am y prif rwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud penderfyniadau dros blant yn eu gofal, y tair thema fwyaf cyffredin oedd:

- **Anawsterau gydag ymglymiad gweithwyr cymdeithasol** (40%) – yn cynnwys diffyg eglurder a chyfathrebu.
- **Diffyg cydsyniad gan y teulu biolegol** (18%).
- **Biwrocratiaeth** (9%).

> "Ni allwn fod yn ddigymell fel y byddem gyda phlant biolegol oherwydd bod yn rhaid inni aros tan y diwrnodau gwaith o ddydd Llun i ddydd Gwener i wneud ceisiadau."

Dengys y cwmwl geiriau'r meysydd penderfyniadau y dywedodd gofalwyr maeth y maent yn eu canfod yr anosaf eu gwneud i blant yn eu gofal.




## Statws gofalwyr maeth

Mae gan ofalwyr maeth rôl hanfodol ym mywydau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cydnabod neu'u gwerthfawrogi am hyn.

Fel a ddangoswyd, roedd gofalwyr maeth yn fwyaf tebygol o deimlo eu bod wedi'u trin fel aelod cydradd ac a werthfawrogir o'r tîm o amgylch y plentyn gan **weithwyr iechyd proffesiynol** a chan eu **gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol**. Roeddynt yn llai tebygol o deimlo felly am **athrawon/gweithwyr addysg proffesiynol** a **swyddogion adolygu annibynnol**, ac yn lleiaf tebygol am **weithwyr cymdeithasol plant**.

Gofalwyr maeth sudd 'bob amser' neu 'fel arfer' yn teimlo'u bod yn cael eu trin fel aelod cydradd ac a werthfawrogir o'r tîm o amgylch y plentyn gan...




Dywedodd 80% eu bod bob amser neu fel arfer yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd gydag athrawon/gweithwyr addysg proffesiynol, 87% i gyfarfodydd cynllunio ac adolygu gofal plant, ac 89% i gyfarfodydd â gweithwyr iechyd proffesiynol.


## Cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth

Bu'r Rhwydwaith Maethu yn ymgyrchu dros gofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, yn debyg i'r cofrestrau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rhannau eraill o'r sector gofal cymdeithasol plant, ers amryw o flynyddoedd. Yn eu hymateb i Ymchwiliad Diwygio Radical 2023, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ystyried cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth. Credwn y byddai hyn o fudd i statws gofalwyr maeth, yn ogystal ag yn gwella diogelu plant, paru, a chynllunio digonol.

**Dywedodd bron i hanner (49%) gofalwyr maeth eu bod yn cefnogi'n gryf neu ychydig gynigion i greu cofrestr genedlaethol**, tra oedd chwarter (25%) yn niwtral, a dywedodd 17% fod arnynt angen mwy o wybodaeth. Dywedodd llai nag un o bob deg (9%) eu bod yn gwrthwynebu'r syniad.

Roedd atebwyr mewn gwasanaethau maethu wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng cefnogi a gwrthwynebu cofrestr genedlaethol i ofalwyr maeth. Dywedodd pump o'r gwasanaethau (46%) fod arnynt angen mwy o wybodaeth.

Barnau am gynigion i greu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth



### Amddiffyniadau a hawliau i ofalwyr maeth

Rhoes dau o bob pump o ofalwyr maeth (43%) wybod eu bod yn teimlo nad oes ganddynt hawliau nac amddiffyniadau, a dywedodd traean (34%) nad oedd ganddynt lawer ohonynt. Gofynasom pa hawliau ac amddiffyniadau y mae gofalwyr maeth yn teimlo y dylent eu cael. Roedd y themâu uchaf yn ymwneud ag:

- **Amodau/triniaeth** (**30%**), yn cynnwys cael eich trin fel gweithwyr proffesiynol a chael llais.
- **Cyllidau** (**29%**), yn cynnwys pensiynau a thâl teg.
- **Honiadau** (**23%**).

"Mae arnaf eisiau i'n barnau gael eu clywed a'u hystyried pan wneir penderfyniadau."


## Cymorth i ofalwyr maeth

Mae maethu yn anhygoel o werth chweil, ond gall hefyd fod yn heriol. Mae ar bob gofalwr maeth angen ystod o gymorth i'w galluogi i ddarparu'r gofal gorau posibl i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, gan gynnal eu llesiant eu hunain. Gofynasom i ofalwyr maeth ddisgrifio'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn i'w maethu gan amrywiol ffynonellau.

**Disgrifiwyd cefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol goruchwyliol orau**, gyda thros dri-chwarter (77%) yn ei ystyried yn ardderchog neu'n dda, i fyny o 69% yn 2021. **Fodd bynnag, dim ond 43% a ddywedodd eu bod wedi cael un gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol cyson yn y 24 mis diwethaf.**

**Disgrifiwyd cefnogaeth gan Y Rhwydwaith Maethu fel yr uchaf ond un**, gyda 64% yn ei ganfod yn ardderchog neu'n dda. Dilynwyd hyn yn agos gan gefnogaeth gan **ofalwyr maeth eraill**, gyda 63% yn ei ganfod yn ardderchog neu'n dda, i lawr ychydig o 67% yn 2021.

**Disgrifiwyd cymorth y tu allan i oriau swyddfa fel y lleiaf orau**: dim ond 38% a ddywedodd ei fod yn ardderchog neu'n dda, i lawr o 47% yn 2021. Dim ond dau wasanaeth (18%) a atebodd yr arolwg a ddywedodd eu bod yn darparu cymorth y tu allan i oriau swyddfa trwy weithiwr cymdeithasol goruchwyliol y gofalwr maeth ei hun.




**Dywedodd llai na hanner gofalwyr maeth (47%) fod ganddynt fynediad at rwydwaith neu berson cymorth cymeradwy a all ddarparu gofal dros nos i'r plant y maent yn eu maethu.** Yn arwyddocaol, mae gofalwyr maeth sydd â mynediad at hyn yn sylweddol fwy tebygol o argymell maethu (56%) na'r rheiny heb fynediad ato (41%).

### Llesiant gofalwyr maeth

**Mae mwy na hanner (56%) gofalwyr maeth a holwyd wedi profi blinder llwyr neu lesiant gwael** oherwydd eu rôl yn maethu. **Dywedodd llai na hanner (45%) eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth i'w llesiant** pan oedd arnynt ei angen, heb ofni canlyniadau negyddol iddynt neu i'r plant y maent yn eu maethu.

Nid yn annisgwyl, roedd gofalwyr maeth a brofodd flinder llwyr yn sylweddol llai tebygol o argymell maethu (35%) na'r rheiny nad ydynt wedi profi blinder llwyr (66%). Roedd y rheiny a ddywedodd eu bod yn teimlo'n alluog i ofyn am gymorth i'w llesiant yn sylweddol fwy tebygol o argymell maethu (68%) na'r rheiny nad oeddynt yn teimlo'n alluog i wneud hynny (25%).

### Rhaglen Mockingbird – model arferion da

Mae Mockingbird, a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu yn y Deyrnas Unedig, yn fodel sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ofal maeth a strwythurwyd ar y gefnogaeth a'r perthnasoedd y mae teulu estynedig yn ei ddarparu. Mae'r model yn meithrin y perthnasoedd rhwng plant, pobl ifanc a theuluoedd maeth, gan eu cynorthwyo i ddatblygu cymuned gydnerth a gofalgar.

O'r gofalwyr maeth a atebodd ein harolwg, **canfuom fod y rheiny sy'n rhan o Mockingbird yn fwy tebygol o ddisgrifio cefnogaeth gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, eu gwasanaeth maethu yn gyffredinol, gofalwyr maeth eraill, grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid, a gweithwyr cymdeithasol plant, fel ardderchog neu dda.**

Roedd gofalwyr maeth Mockingbird hefyd yn sylweddol fwy tebygol o gael at rwydwaith cymorth cymeradwy neu berson a all ddarparu gofal dros nos i blant (85%) na gofalwyr maeth eraill (45%). Roeddynt yn llai tebygol o fod wedi profi blinder llwyr neu lesiant gwael (54%) na gofalwyr maeth eraill (58%), ac yn sylweddol fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu gofyn am gefnogaeth i'w llesiant (64%) na gofalwyr maeth eraill (47%).

O'r data hwn, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ariannu Mockingbird ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac i helpu i recriwtio a chadw gafael.

## Cymorth i blant mewn gofal maeth

Mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn aml wedi profi trawma a thrallod a all effeithio ar eu datblygiad, eu cyrhaeddiad addysgol, eu

llesiant a'u hiechyd meddwl. Mae gan bob plentyn mewn gofal y potensial i ffynnu gyda'r gefnogaeth iawn, ond yn rhy aml, nid yw'r gefnogaeth hon ar gael pan fo arnynt ei hangen, neu phan nad yw'n ddigonol.

### Cymorth i ddysgu

**Dywedodd dau o bob pump o ofalwyr maeth a holwyd (42%) fod o leiaf un o'r plant y maent yn ei faethu yn derbyn cymorth ychwanegol gyda'u haddysg, i lawr o 53% yn 2021.**

O'r rheiny sy'n maethu plentyn sy'n derbyn cymorth ychwanegol gyda'u haddysg, dim ond 40% a ddywedodd eu bod yn credu bod y cymorth hwn yn ddigonol, i lawr o 45% yn 2021.

### Cymorth gydag iechyd meddwl a llesiant meddyliol

Dywedodd 40% o ofalwyr maeth fod o leiaf un plentyn y maent yn ei faethu naill ai'n derbyn cymorth iechyd meddwl neu lesiant meddyliol neu ei fod ar restr aros am gymorth, i fyny o 29% yn 2021.

Cynyddodd y ganran sy'n maethu plentyn sy'n derbyn cymorth iechyd meddwl ychydig iawn o 24% yn 2021 i 25% yn 2024. Cynyddodd y ganran sy'n maethu plentyn a gaiff ei atgyfeirio neu sy'n aros am gymorth 5% i 15% yn yr un cyfnod o amser.

Mae 37% o ofalwyr maeth yn maethu plentyn sydd angen cymorth iechyd meddwl ond nad yw yn ei gael, i fyny 30% yn 2021.

> "Cymerodd hi 5 mlynedd inni gael cymorth iechyd meddwl i'r plentyn y gofalwn amdano."



**Mae 37% o ofalwyr maeth yn maethu plentyn sydd angen cymorth iechyd meddwl ond nad yw yn ei gael, i fyny 30% yn 2021.**


## Honiadau

Honiad yw honiad gan unrhyw berson y mae gofalwr maeth neu aelod arall o'r aelwyd sy'n maethu wedi, neu a all fod wedi: ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn; wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn; neu wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n dynodi nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant. **Dywedodd 15% o ofalwyr maeth a holwyd eu bod wedi profi un neu fwy o honiadau yn y 24 mis diwethaf.**

### Cymorth

Cydnabyddir ei fod yn ymarfer da i ofalwyr maeth dderbyn cymorth annibynnol trwy'r broses honiadau. Fodd bynnag, **dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (43%) o ofalwyr maeth a holwyd yng Nghymru eu bod wedi derbyn cymorth annibynnol** yn ymwneud â'u honiad diweddaraf, i fyny ychydig o 41% yn 2021. Canfu dros dri-chwarter (78%) fod hyn yn fuddiol, i fyny o 67% yn 2021.

**Derbyniodd un o bob deg gymorth cynghori arbenigol**, a chanfu hanner y rhain y cymorth yn ddigonol. Yn yr un modd, **dywedodd ychydig dros un o bob deg (13%) fod eu teulu ehangach wedi cael cynnig cymorth** gan eu gwasanaeth maethu. Gall honiadau yn erbyn gofalwyr maeth fod yn eithriadol o ingol iddynt, a gall effeithio ar eu teulu cyfan, ac felly mae'r cymorth hwn yn hanfodol i'w llesiant ac i'w galluogi i barhau i faethu pan fo'n iawn gwneud hynny.




### Graddfeydd amser ymchwiliadau

Hyd mwyaf cyffredin ymchwiliadau i honiadau oedd un i dri mis (28%). **Dywedodd un o bob deg (10%) fod yr ymchwiliad wedi cymryd dros flwyddyn.**

### Symud plant

**Dywedodd traean (35%) y gofalwyr maeth fod plentyn roeddynt yn ei faethu wedi'i symud o'u cartref yn ystod eu hymchwiliad diweddaraf i honiad, i fyny o un o bob pump (19%) yn 2021.** Y tro hwn, gofynasom hefyd a gafodd y plentyn ei ddychwelyd; dim ond 7% o ofalwyr maeth a ddywedodd 'do'.

Dywedodd dros draean (36%) y gofalwyr maeth a oedd wedi profi plentyn yn cael ei symud eu bod wedi derbyn eu lefel arferol o ffioedd gofalwyr maeth yn ystod yr ymchwiliad i'r honiad.

### Effaith honiadau

Gofynasom i ofalwyr maeth rannu sut mae profiadau o honiadau wedi effeithio arnynt. Yr effaith y rhoddir gwybod amdani fwyaf oedd yr effaith ar eu **maethu (48%)**, yn

cynnwys eu teimladau am faethu, a'u hofn am honiadau yn y dyfodol. Yn ychwanegol, **disgrifiodd 22% yr effaith ar eu hiechyd emosiynol/meddwl**, a **thrafododd 19% yr effaith ar eu teulu cyfan**.

> "Roedd o'n anhygoel o gynhyrfiol ac fe'n gwnaeth inni gwestiynu a oedd arnom eisiau parhau i faethu."

Gofynasom hefyd i ofalwyr maeth beth fyddai'n gwella'r profiad o honiadau iddynt. Eu blaenoriaethau oedd **tegwch** (42%); **gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth** (42%); a **gwell cefnogaeth i ofalwyr maeth** (21%).

## Cyllidau

Mae pob gofalwr maeth yn derbyn lwfans a ddylai dalu costau gofalu am y plant y maent yn eu maethu. Mae rhai gofalwyr maeth hefyd yn derbyn ffi mewn cydnabyddiaeth o'u rôl. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dal i ddangos bod lwfansau a ffioedd yn aml yn annigonol, ac mae llawer o ofalwyr maeth yn gorfod ychwanegu at eu hincwm mewn ffyrdd eraill i allu fforddio i faethu.

### Gwaith a budd-daliadau

Yng Nghymru, dywedodd 40% o ofalwyr maeth eu bod yn gweithio ochr yn ochr â maethu, gostyngiad bychan o 43% yn 2021. Dywedodd dros chwarter (28%) eu bod yn derbyn budd-daliadau.

### Lwfansau

**Dim ond chwarter (25%) y gofalwyr maeth a ddywedodd fod y lwfans maethu, ac unrhyw dreuliau y gallant eu hawlio, yn talu'r costau llawn o ofalu am y plant y maent yn eu maethu**, i lawr o dros hanner (53%) yn 2021.

Dywedodd y rhan fwyaf o ofalwyr maeth (71%) eu bod yn defnyddio incwm personol arall, megis eu ffioedd gofalwyr maeth, cynilion, neu incwm cymar i dalu'r gost ychwanegol hon. Dywedodd 29% o ofalwyr maeth fod yn rhaid iddynt weithio, a dywedodd 14% fod yn rhaid iddynt hawlio budd-daliadau i dalu'r gost ychwanegol.




**Dim ond chwarter y gofalwyr maeth (25%) a ddywedodd fod y lwfans maethu, ac unrhyw dreuliau y gallan nhw eu hawlio, yn talu costau llawn gofalu am y plant y maen nhw'n eu maethu, i lawr o fwy na hanner (53%) yn 2021.**

### Ffioedd

**Dywedodd llai na hanner (47%) y gofalwyr maeth yng Nghymru eu bod yn derbyn ffi. O'r rhain, dim ond 13% a ddywedodd eu bod yn teimlo bod eu ffi yn ddigonol i dalu'u costau byw hanfodol**, er enghraifft, biliau, rhent neu forgais a bwyd (nid i'r plant y maent yn eu maethu).

Dywedodd dwy ran o dair (64%) o ofalwyr maeth nad oeddynt yn derbyn ffi tâl cadw os nad oes ganddynt blentyn yn byw mewn gofal maeth gyda nhw, gostyngiad bychan iawn o 65% yn 2021.

Er bod lwfansau'n cael eu pennu'n genedlaethol gan bob un o'r pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig, nid oes yna ddeddfwriaeth neu ganllawiau canolog am ffioedd i ofalwyr maeth. Penderfynir ar ffioedd yn unigol gan bob un darparwr gwasanaeth maethu. Gofynasom i bob atebwr yr arolwg am eu barnau am hyn; **dywedodd tri-chwarter gofalwyr maeth (76%) a saith gwasanaeth maethu (64%) y dylai llywodraethau eu hunain bennu fframwaith ffioedd cenedlaethol i fod yn gymwys ledled yr holl wasanaethau maethu.**

> Dywedodd tri-chwarter gofalwyr maeth y dylai llywodraeth bennu fframwaith ffioedd cenedlaethol i fod yn gymwys ledled yr holl wasanaethau maethu.

### Rheoli cyllidau

**Dywedodd dros dri-chwarter (77%) y gofalwyr maeth fod costau byw wedi cael effaith ar eu maethu**. Crybwyllasant yn aml eu bod yn wynebu costau aelwyd uwch ac yn gorfod cwtogi ar wario, sy'n effeithio ar y cyfleoedd y gallant eu rhoi i'r plant y maent yn eu maethu.

"Ychydig iawn o arian sydd gennym i dalu am brofiadau bywyd i'r plant."

## Rhan tri

# Gorffeniadau a gofal ôl-faethu

## Plant yn symud ymlaen mewn gofal maeth

### Gorffeniadau nas cynlluniwyd


Dywedodd 63% o ofalwyr maeth yng Nghymru sydd wedi profi plentyn yn symud ymlaen yn y 24 mis diwethaf fod hyn yn cynnwys gorffeniad nas cynlluniwyd, i fyny o 50% yn 2021.



**Dywedodd dwy ran o dair o ofalwyr maeth (63%) sydd wedi profi plentyn yn symud ymlaen yn ystod y 24 mis diwethaf fod hyn yn cynnwys diwedd na chafodd ei gynllunio, i fyny o 50% yn 2021.**

Yr achos mwyaf cyffredin o orffeniadau nas cynlluniwyd oedd deisyfiad y gofalwr maeth ei hun (58%).

lle roedd plentyn yn symud ymlaen heb ei gynllunio, beth a berodd y symudiad hwn?




Nododd bron i draean (30%) reswm arall am eu gorffeniad diweddaraf nas cynlluniwyd. Roedd eu sylwadau yn ymwneud gan amlaf â **diogelu**, yn aml ynglŷn ag ymddygiad plant neu faterion gyda'u teulu biolegol.

"Roedd y person ifanc yn ffiaidd tuag at blentyn arall sy'n derbyn gofal yn y tŷ, ac felly roedd angen ei dynnu ymaith ar unwaith."

Yn 2024, gofynasom hefyd i wasanaethau maethu beth roeddynt yn ei ystyried oedd y prif newidiadau sy'n ofynnol i leihau gorffeniadau nas cynlluniwyd i blant mewn gofal maeth. Y thema uchaf mewn atebion oddi wrth wasanaethau yng Nghymru oedd **cymorth** i ofalwyr maeth a phlant, gyda 6 gwasanaeth (**60%**) yn cynnwys hyn. Yn ychwanegol, dywedodd 4 gwasanaeth (**40%**) y byddai **gwell paru** plant a gofalwyr maeth yn lleihau gorffeniadau nas cynlluniwyd.

## Gorffeniadau a gynlluniwyd

Dywedodd 81% o ofalwyr maeth a brofodd blentyn yn symud ymlaen yn y 24 mis diwethaf fod hyn wedi cynnwys gorffeniad a gynlluniwyd. O'r rhain, **dywedodd 67% fod eu gorffeniad diweddaraf a gynlluniwyd wedi'i ragflaenu gan adolygiad o gynllun gofal y plentyn neu adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal**. Dywedodd 89% eu bod yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

Dywedodd ychydig dros hanner (57%) y gofalwyr maeth a holwyd eu bod wedi cael y cyfle i gyfrannu tuag at yr wybodaeth atgyfeirio ar gyfer trefniant gofal nesaf y plentyn mewn perthynas â'u gorffeniad diweddaraf a gynlluniwyd, yr un ag yn 2021.

## Barnau am benderfyniadau i symud plant

Dim ond hanner (52%) y gofalwyr maeth a roes wybod am deimlo bod penderfyniadau i symud plant bob amser neu fel arfer er lles gorau'r plentyn. Mae hyn wedi gostwng ychydig o 54% yn 2021.

# Gofal ôl-faethu

Tan 2016, roedd hi'n ofynnol i'r rhan fwyaf o bobl ifanc mewn gofal maeth adael eu cartref maeth cyn gynted ag y cyraeddasant 18 oed, yn llawer cynt na'u cymheiriaid nad ydynt mewn gofal – sy'n gadael yn 24 oed ar gyfartaledd – ac yn aml cyn eu bod yn barod. Yng Nghymru, gall pobl ifanc aros gyda'u teuluoedd maeth hyd at 21 oed, neu tan 25 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant trwy **Pan Fydda i'n Barod**.

## Cynllunio pontio

Mae cynllunio cynnar yn bwysig i sicrhau pontio di-dor rhwng, ac allan o, trefniadau gofal. Fodd bynnag, **dywedodd llai na chwarter (24%) y gofalwyr maeth fod gwasanaethau yn nodweddiadol yn dechrau cynllunio fwy na chwe mis cyn bod person ifanc yn pontio** allan o ofal neu i mewn i drefniant gofal ôl-faeth. Dywedodd 15% yn rhagor nad oes yna yn nodweddiadol unrhyw gynllunio.

## Rhwystrau i drefniadau gofal ôl-faeth

Gofynasom i ofalwyr maeth rannu'r rhesymau pam na wnaeth unrhyw bobl ifanc cymwys aros gyda nhw mewn trefniant gofal ôl-faeth pan gyraeddasant yr oed priodol. Y rhesymau uchaf oedd:

- Roedd ar y person ifanc eisiau symud ymlaen (44%)
- Byddai incwm y gofalwr maeth yn gostwng (32%)
- Dechreuodd y person ifanc ar drefniant arall, e.e. Cysylltu Bywydau neu Letyau â Chymorth (32%)

## Cyllidau mewn trefniadau gofal ôl-faeth

**Dywedodd dros bedwar o bob pump (85%) o ofalwyr maeth eu bod yn waeth eu byd yn ariannol o ganlyniad i gynnig gofal ôl-faeth.** Mae hyn wedi cynyddu ychydig o 83% yn

2021. Roedd atebwyr yn 2024 hefyd yn fwy tebygol o fod yn sylweddol waeth eu byd (54%) nag yn 2021 (47%). Dywedodd bron i ddwy ran o dair (64%) o ofalwyr maeth y disgwylir i'r person ifanc gyfrannu tuag at eu lwfans.



**Dywedodd dros bedwar o bob pum gofalwr maeth (85%) eu bod mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i gynnig gofal ôl-faethu.**

## Sylwadau am drefniadau gofal ôl-faeth

Cafodd gofalwyr y cyfle i rannu unrhyw beth arall yr hoffent ei ddweud am ba mor dda y mae trefniadau gofal ôl-faeth yn gweithio i'r bobl ifanc y maent yn eu maethu. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:


- Cyllidau (42%) – yn cynnwys anawsterau cael at gymorth ariannol; effaith cyllidau ar benderfyniadau ynglŷn â gofal ôl-faeth; a'r effaith ariannol o ddechrau ar drefniant gofal ôl-faeth.
- Amseriadau (22%) – yn ymdrin â pharodrwydd pobl ifanc i symud i annibyniaeth, a theimlo o dan bwysau neu'n cael eu rhuthro.

"Mae'r cymorth i bobl ifanc yn gostwng yn aruthrol, ac er eu bod yn byw yma, fe'n cedwir ni allan o'r holl wybodaeth a'r cynllunio... mae'n eitha' anghyfforddus ac nid ydym yn teimlo ei fod o gymorth i'r person ifanc."

## Cadw mewn cysylltiad

Mae perthnasoedd plant a phobl ifanc â'u teuluoedd maeth yn ganolog i'w helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi pan na allant fyw gyda'u teulu biolegol. Pan fo plentyn yn symud ymlaen o deulu maeth, dylent fod yn gallu cynnal eu perthynas gyda nhw am gyhyd ag y maent yn dymuno.

Er gwaethaf hyn, **dim ond hanner (50%) y gofalwyr maeth yn 2024 a ddywedodd eu bod bob amser neu fel arfer yn cadw mewn cysylltiad â phlant roeddynt wedi'u maethu yn flaenorol**. Ychydig o dan hanner (48%) a ddywedodd fod y perthnasoedd hyn bob amser neu fel arfer yn para dros y cyfnod hir; er enghraifft, hyd at oedolaeth y plant.



**Dywedodd hanner y gofalwyr maeth (50%) eu bod nhw bob amser neu fel arfer yn cadw mewn cysylltiad â'r plant y maen nhw wedi'u maethu.**

Dim ond un rhan o bump (19%) o ofalwyr maeth a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn neu'n eitha' da i gadw mewn cysylltiad â phlant maeth blaenorol, lle y bo'n briodol.

### Rhesymau dros beidio â chadw mewn cysylltiad

Y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â chadw mewn cysylltiad oedd nad oedd y mabwysiadwyr eisiau iddynt wneud (22%), nad oedd ymarfer lleol yn caniatáu iddynt wneud (21%), nad oedd ar deulu biolegol y plentyn eisiau iddynt wneud (21%), nad oedd ar y plentyn eisiau cadw mewn cysylltiad (19%), ac nad oedd cadw mewn cysylltiad yn ymarferol (17%)

### Sylwadau am gadw mewn cysylltiad

Y themâu mwyaf cyffredin ynglŷn â chadw mewn cysylltiad oedd:

- **Eisiau cadw mewn cysylltiad** (46%) – mae gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi cadw mewn cysylltiad a gweld plant maeth blaenorol fel rhan o'r teulu.
- **Buddion o gadw mewn cysylltiad** (17%) – yn cynnwys er mwyn i blant deall eu stori bywyd.
- **Rhwystrau i gadw mewn cysylltiad** (15%) – yn bennaf nad yw gwasanaethau yn ei annog.
- **Profiadau gwael o gadw mewn cysylltiad** (12%) – disgrifiodd gofalwyr maeth ddiffyg cefnogaeth i gadw mewn cysylltiad, a'r effaith a gaiff hyn arnynt a'r plant y maent wedi'u maethu.

"Ni chawsom ddweud ffarwél ac rydym yn dal i deimlo'r galar fel teulu. Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn drawmatig iawn i'r eneth fach allu symud ymlaen, ac rydym yn dal i bryderu amdani."


# Rhan pedwar

# Y system

## Prinderau gofalwyr maeth

Mae modd dadlau mai'r prinderau hirsefydlog o ofalwyr maeth yng Nghymru yw'r dangosydd egluraf o sector mewn argyfwng. Bob blwyddyn, collwn fwy o ofalwyr maeth nag a enillwn, ac mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn ategu hyn; dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau maethu a atebodd yr arolwg fod cyfanswm aelwydydd maethu prif ffrwd cymeradwy ac ymholiadau i faethu i'w gwasanaeth wedi gostwng neu wedi aros fwy neu lai'r un fath yn y flwyddyn ddiwethaf, fel a ddangosir yn y graff isod.

Fodd bynnag, maent yn fwy tebygol o ddweud bod cyfanswm yr aelwydydd maethu gan berthynas/ cysylltiedig cymeradwy yn eu gwasanaeth wedi aros fwy neu lai'r un fath neu wedi cynyddu nag wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, gan fod â'r potensial i adlewyrchu symudiad tuag at flaenoriaethu gofal gan berthynas i blant, lle y bo'n bosibl.



**Yng Nghymru, dywedodd pob un o'r 11 gwasanaeth a atebodd yr arolwg fod yna brinder gofalwyr maeth yn eu poblogaeth leol.**

## Cadw gafael

Mae cadw gafael ar ofalwyr maeth yr un mor bwysig â recriwtio, os nad yn bwysicach, er mwyn rhoi sylw i'r prinderau cyfredol o ofalwyr maeth ym mhob un genedl. Gofynasom i wasanaethau maethu rannu'r peth mwyaf effeithiol a wnânt i gadw gafael ar ofalwyr maeth. Y themâu uchaf oedd **cymorth**, **perthnasoedd**, a **gwerthfawrogi gofalwyr**.

**Dywedodd tua hanner (55%) y gofalwyr maeth y byddant yn parhau i faethu am gyhyd ag y gallant**, i fyny o 50% yn 2021. Yn nodedig, mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth sydd yn eich ysgogi i faethu?', dewisodd 65% o ofalwyr maeth, 'Rwyf wedi fy ymrwymo i'r plant rwyf yn eu maethu ar hyn o bryd', fel rheswm allweddol. (Gweler yr adran ar Recriwtio am drafodaeth ar gymhelliannau i ddechrau maethu.)

Fodd bynnag, dywedodd 56% o ofalwyr maeth eu bod naill ai wedi ystyried (45%) neu'n dal i ystyried (11%) ymddiswyddo o faethu, yn fwyaf cyffredin oherwydd:

- **Blinder llwyr neu lesiant gwael yn ymwneud â maethu (56%)**
- **Diffyg cefnogaeth gan y gwasanaeth maethu (55%)**
- **Diffyg parch gan weithwyr proffesiynol eraill yn y tîm o amgylch y plentyn (53%)**

Yn ychwanegol, dewisodd 26% o ofalwyr maeth a ystyriodd ymddiswyddo anawsterau ariannol fel ffactor cyfrannol. Dywedodd 23% o'r holl ofalwyr maeth y gwnaethom eu holi yng Nghymru wrthym fod eu hincwm maethu yn rhan hanfodol o incwm eu haelwyd, gan bwysleisio rhagor ar bwysigrwydd cymorth ariannol i ganiatáu i ofalwyr maeth barhau yn y rôl.

## Cynllunio digonolrwydd

O'r gwasanaethau maethu yng Nghymru a gwblhaodd ein harolwg yn 2024, dywedodd pob un o'r 11 fod ganddynt strategaeth recriwtio a chadw gafael maethu. Dywedodd saith gwasanaeth maeth (64%) eu bod bob amser (55%) neu fel arfer (9%) yn gysylltiedig ag unrhyw gynllunio digonolrwydd lleol a rhanbarthol ar gyfer y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal, yn gyffelyb i 2021.

**Dywedodd chwech o'r gwasanaethau maethu (55%) eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r syniad o greu strategaeth recriwtio a chadw gafael faethu genedlaethol ym mhob un o genhedloedd y Deyrnas Unedig.**

## Barnau ac agweddau am faethu

Yn anffodus, mae nifer y gofalwyr maeth fyddai'n argymell maethu i eraill wedi gostwng. **Dywedodd llai na hanner (48%) y gofalwyr maeth y byddent yn argymell maethu** i eraill a all fod yn ei ystyried, i lawr o 58% yn 2021. **Ar gyfartaledd, disgrifiodd gofalwyr maeth yn 2024 eu profiad o faethu fel 7.0 allan o 10, i lawr o 7.4 allan o ddeg 10 yn 2021.**

Gofynasom i ofalwyr maeth a gwasanaethau maethu beth y maent yn ei gredu sy'n gweithio'n dda mewn maethu ar hyn o bryd. Roedd y themâu uchaf fel a ganlyn.

| Pa un prif beth rydych yn ei gredu sy'n gweithio'n dda mewn maethu ar hyn o bryd? | |
|---|---|
| Atebion uchaf gofalwyr maeth | Atebion uchaf gwasanaethau maethu |
| • **Perthnasoedd cadarnhaol** gyda gweithwyr cymdeithasol (**18%**). | • **Arferion a phrosesau** gwasanaethau maethu (pum gwasanaeth, **50%**), yn cynnwys asesu, cymeradwyo, paru, a gwaith tîm yn y gwasanaeth. |
| • **Effaith maethu ar blant a phobl ifanc** (**16%**). | • **Gofalwyr maeth yn diwallu anghenion plant** (tri gwasanaeth, **30%**). |
| • **Y gymuned gofal maeth** (**14%**). | • **Perthnasoedd cadarnhaol**, yn cynnwys rhwng gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol (tri gwasanaeth, **30%**). |

Gofynasom wedyn beth yr hoffent ei weld yn newid.

| Pa un prif beth yr hoffech ei weld yn newid i wneud gofal maeth yn well? | |
|---|---|
| Atebion uchaf gofalwyr maeth | Atebion uchaf gwasanaethau maethu |
| • **Statws a pharch i ofalwyr maeth** yn y tîm o amgylch y plentyn (**23%**). | • **Prosesau o fewn y system** (pedwar gwasanaeth, **40%**), megis paru. |
| • **Cyllidau** (**22%**), yn cynnwys cymorth ariannol i ofalwyr maeth a chyllid yn gyffredinol. | • **Cyllidau** (tri gwasanaeth, **30%**), yn cynnwys lwfansau a ffioedd i ofalwyr maeth, a chyllid i'r gwasanaeth. |
| • **Cymorth i ofalwyr maeth a phlant mewn gofal** (**14%**), yn cynnwys cael at seibiannau byrion a chymorth iechyd meddwl. | • **Statws a pharch i ofalwyr maeth** yn y tîm o amgylch y plentyn (tri gwasanaeth, **30%**). |

# Casgliad

Ledled llawer o feysydd maethu – yn cynnwys paru, dysgu a datblygu, a chyllidau – dengys y dystiolaeth o'r arolwg hwn fod profiadau gofalwyr maeth, a thrwy estyniad, profiadau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu maethu, wedi gwaethygu er 2021 yng Nghymru. Ar faterion eraill, megis honiadau mewn teuluoedd maethu, mae'r canfyddiadau'n parhau i beintio darlun llawn her ac anodd.

Fodd bynnag, gwelsom hefyd enghreifftiau ledled y Deyrnas Unedig y gall y cymorth cywir, yn enwedig gan weithwyr cymdeithasol goruchwyliol, gofalwyr maeth eraill, a thrwy raglenni fel Mockingbird, helpu gofalwyr maeth i newid bywydau plant. Rhannodd atebwyr hefyd eu cefnogaeth gref dros newidiadau ymarferol fyddai'n gwneud gwir wahaniaeth i ofalwyr maeth a phlant a phobl ifanc. Amlinellodd yr argymhellion a ganlyn y newidiadau allweddol y credwn y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleoli a gwasanaethau maethu fod yn eu blaenoriaethu.

## Dylai Llywodraeth Cymru

- Ailsefydlu'r **Bwrdd Maethu Cenedlaethol** i gynnal goruchwyliaeth hanfodol a chynnydd o ran gwelliannau i ddarpariaeth maethu yng Nghymru.
- Creu **strategaeth recriwtio a chadw gafael genedlaethol** ar gyfer gofal maeth, ac ariannu **ymgyrchoedd cenedlaethol i recriwtio gofalwyr maeth**, gan gwmpasu'r trydydd sector, i fod yn gyson â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025 i gynyddu'r gronfa o ofalwyr maeth.
- Buddsoddi yn y gorchwyl o weithredu, adolygu parhaus a monitro'r fframwaith safonedig ar gyfer hyfforddiant cyn ac ôl-gymeradwyaeth i ofalwyr maeth (**Fframwaith Dysgu a Datblygu**), a'i roi ar seiliau statudol.
- Cyflwyno **awdurdod dirprwyedig uchaf** 'optio allan' statudol ar gyfer gofalwyr maeth i wneud penderfyniadau beunyddiol ar ran y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu maethu.
- Cyflwyno **cofrestr o ofalwyr maeth** yng Nghymru i gynyddu statws gofalwyr maeth a chynorthwyo i baru plant â gofalwyr maeth. Trosglwyddo cyfrifoldeb am benderfyniadau ynglŷn ag atal cymeradwyaeth gofalwyr maeth i'r corff hwn i gynyddu annibyniaeth.
- Rhoi sylw i faterion digonolrwydd o fewn timau gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd, gan flaenoriaethu ac ariannu **recriwtio a rheoleiddio gwaith cymdeithasol a dargedwyd o lwythi gwaith**.
- Buddsoddi yng **ngwasanaethau iechyd meddwl plant** a **chymorth ychwanegol ar gyfer dysgu**.
- Ariannu **gwasanaethau cymorth annibynnol**, diogelwch cyfreithiol, cynrychiolaeth ac eiriolaeth i bob gofalwr maeth sy'n destun honiad, pryder neu gŵyn.
- Cynyddu'r **Lwfans Gofynnol Cenedlaethol** i fodloni'n cyfraddau a argymhellir[7] a chydgordio cyfraddau lwfansau ym mhob gwasanaeth maethu ledled Cymru.
- Cyflwyno ac ariannu **fframwaith ffioedd cenedlaethol a argymhellir**, gyda ffioedd yn cael eu talu am 52 wythnos y flwyddyn.

[7] Y Rhwydwaith Maethu (2025) Lwfansau Maethu

- Cyflwyno **cynllun pensiwn cenedlaethol** i ofalwyr maeth.
- Darparu cyllid i gynyddu'r oed uchaf ar gyfer trefniadau gofal ôl-faethu i 25 oed (ni waeth p'un a ydynt mewn addysg neu waith) i alluogi pobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr maeth yn hwy, gan wella **pontio**.
- Paratoi canllawiau statudol i gynorthwyo **perthnasoedd parhaus** plant a phobl ifanc gyda phobl sy'n bwysig iddynt, yn cynnwys eu teuluoedd maeth blaenorol, lle y bo'n briodol.
- Ariannu **rhaglenni maethu arloesol** sy'n canolbwyntio ar atal, cadw gafael a chefnogi, megis Maethu Lles, Mockingbird, Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl.

## Dylai awdurdodau lleoli:

- Sicrhau bod gwybodaeth am broffiliau plant yn cael ei choladu gan bawb sydd yn eu hadnabod orau a'i rhannu gyda gwasanaethau maethu i hysbysu **paru o ansawdd uchel**.
- Rhoi barnau plant a phobl ifanc wrth graidd penderfyniadau ynglŷn ag **amser teuluol** a **chadw mewn cysylltiad** â gofalwyr maeth blaenorol.
- Sicrhau bod pob plentyn a ddaw i ofal yn derbyn **asesiad iechyd meddwl a mynediad at y gwasanaethau a nodwyd**.

## Dylai gwasanaethau maethu:

- Sicrhau y caiff pob **gwybodaeth baru** angenrheidiol am blant ei rhannu gyda gofalwyr dichonol, ac y caiff plant eu hysbysu am, a chael, y cyfle i gyfarfod â'u teulu maeth newydd, mewn da bryd cyn unrhyw symudiad.
- Darparu **hyfforddiant** i ofalwyr maeth mewn ystod o fformatau ac ar wahanol adegau i wella presenoldeb, gan ganolbwyntio'n neilltuol ar gynyddu'r nifer sy'n cael eu hyfforddi am ofal sy'n ystyriol o drawma, a darparu cyfleoedd am uwch-hyfforddiant.
- Cynnwys manylion am **benderfyniadau beunyddiol** mewn cynllunio gofal. Sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu gwahodd, a'u cynorthwyo, i gyfarfodydd cynllunio ac adolygu gofal.
- Blaenoriaethu gwell **cefnogaeth i ofalwyr maeth**, yn cynnwys cymorth therapiwtig, cymorth gan gymheiriaid a chymorth y tu allan i oriau swyddfa. Sicrhau bod gan bob gofalwr maeth fodd o gael at rwydwaith neu berson cymorth cymeradwy a all ddarparu gofal dros nos i'r plant y maent yn eu maethu; er enghraifft, trwy arloeswr Maethu Lles.

### Maethu Lles – model arferion da yng Nghymru

Mae Maethu Lles yn rhaglen arloesol a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru ac a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella deilliannau llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal trwy ddylanwadu ar y ffordd rydym yn cydweithio i ddarparu'r gofal hwnnw.

Darperir y rhaglen Maethu Lles yn bennaf trwy bump o ddosbarthiadau meistr â thema, yn ystod pryd y gall pawb sy'n gysylltiedig â'r 'tîm o amgylch y plentyn' ennill y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gynorthwyo pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn.

#### Arloeswyr

Mae Arloeswyr Maethu Lles yn ofalwyr maeth ac yn ofalwyr sy'n berthynas a fynychodd y dosbarthiadau meistr ac sy'n dymuno cyfrannu mwy, gan ragori ar eu rôl faethu, i gynorthwyo gweithgareddau ehangach yn y gwasanaeth. Mae arloeswyr yn darparu cymuned o gefnogaeth ac yn hyrwyddo llais maethu trwy Gymru i gyd.

Mae'r rhaglen Maethu Lles yn darparu cymorth strwythuredig, offer, adnoddau a chanllawiau i gynorthwyo cynllunio, recriwtio a datblygu ar gyfer y rôl ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n cefnogi 'ffordd' o weithio sy'n gwerthfawrogi'r Arloeswyr fel partneriaid cydradd yn y 'tîm ehangach o amgylch y plentyn'. Y nod yw bod pawb sy'n gysylltiedig yn cydweithio'n gydgynhyrchiol.

# Ynglŷn â'r data

Cwblhawyd ein harolwg Gofal Maeth Cyflwr y Cenhedloedd 2024 gan 2,883 o ofalwyr maeth cyfredol, 169 o gyn-ofalwyr maeth, a 114 o wasanaethau maethu ledled y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, cwblhawyd arolwg 2024 gan 276 o ofalwyr maeth cyfredol ac 11 o wasanaethau maethu, ac mae'r cyfarwyddiad hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar yr atebion hyn. Roedd yr arolygon yn agored o'r 2$^{ail}$ o Fai tan y 14$^{eg}$ o Orffennaf, 2024 ac fe'u cynhaliwyd ar-lein gan ddefnyddio Qualtrics. Rhannwyd yr arolygon gyda holl aelodau'r Rhwydwaith Maethu ac fe'u hyrwyddwyd trwy'n gwefan, ein cylchgrawn, ein cyfryngau cymdeithasol a'n e-gylchlythyrau. Dadansoddwyd canfyddiadau gyda chymorth dau ymgynghorydd annibynnol.

## Ynglŷn â'r atebwyr sy'n ofalwyr maeth

**Dywedodd 88% o atebwyr yng Nghymru eu bod yn maethu i awdurdod lleol**. Dywedodd gweddill yr atebwyr eu bod yn maethu i ddarparwr gwasanaeth maethu annibynnol, naill ai er elw (9%) neu nid-er-elw (4%).

**Roedd 80% o atebwyr yn ofalwyr maeth prif ffrwd ac roedd 21% yn ofalwyr maeth sy'n deulu a chyfeillion / perthynas cymeradwy** (neu'n aros am gymeradwyaeth). Yn ychwanegol, roedd 5% o atebwyr yn cynorthwyo pobl ifanc mewn trefniadau gofal ôl-faeth.

## Ynglŷn â'r atebwyr yn y gwasanaeth maethu

**Roedd wyth o wasanaethau (73%) yn awdurdodau lleol**. Roedd gweddill yr atebwyr yn ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, naill ai er elw (2 wasanaeth, 18%) neu nid-er-elw (1 gwasanaeth, 9%).

Roedd tri (27%) o'r rheiny a gwblhaodd arolwg y gwasanaethau maethu ar ran eu gwasanaeth yn rheolwyr gwasanaeth maethu; roedd un (9%) yn rheolwr tîm; roedd dau (18%) yn rheolwyr cofrestredig; ac roedd gan weddill yr atebwyr amrywiaeth o rolau cysylltiedig.

**Y Rhwydwaith Maethu yw elusen faethu a sefydliad aelodaeth blaenllaw'r DU. Ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb sy'n ymwneud â bywydau plant mewn gofal maeth at ei gilydd.**

Rydym yn cefnogi gofalwyr maeth i drawsnewid bywydau plant ac rydym yn gweithio gyda gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal maeth yn profi bywyd teulu sefydlog ac rydym yn angerddol am y gwahaniaeth y mae gofal maeth yn ei wneud. Rydym yn hyrwyddo maethu ac yn ceisio creu newid hanfodol i sicrhau bod gofal maeth y gorau y gall fod.

Rydym wedi bod yn arwain yr agenda maethu ers 50 mlynedd, gan ddylanwadu ar a llunio polisi ac arferion ar bob lefel.


**Awduron yr adroddiad:**

Tamzin Covell

Sioned Ellis

Natalie Williams



**Cefnogir gan:**


thefosteringnetwork

@fosteringnet

@thefosteringnetwork

thefosteringnetwork.org.uk


I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad, cysylltwch â **policy@fostering.net**



Swyddfa gofrestredig 87 Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 280852 ac yn yr Alban SC039338
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277 cofrestriad TAW 231 6335 90